



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner



Llunio adroddiad blynyddol safonau'r Gymraeg

Dogfen gyngor arferion da

Mae dogfennau cyngor arferion da'r Comisiynydd yn cynnig syniadau ymarferol ynghylch sut i fynd ati i gydymffurfio â dyletswyddau iaith statudol, a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg.

Mae'r dogfennau cyngor yn cyfeirio at ofynion dyletswyddau iaith statudol penodol, ond noder:

- o Gall sefydliadau nad ydynt dan ddyletswydd i weithredu'r dyletswyddau penodol y cyfeirir atynt fynd ati i gymhwyso'r egwyddorion a'r enghreifftiau i'w sefyllfa hwy
- o Nid yw'r dogfennau cyngor yn rhwymo sefydliadau'n gyfreithiol. Rhaid i sefydliadau ddibynnu ar eu cyngor cyfreithiol eu hunain wrth ddehongli a gweithredu dyletswyddau iaith

Nid yw'r dogfennau cyngor yn godau ymarfer safonau dan adran 68 Mesur y Gymraeg, felly nid yw'n ofynnol cyfeirio at y dogfennau cyngor wrth ystyried dehongliad safonau'r Gymraeg. Mae [codau ymarfer y Comisiynydd](#) ar gyfer rheoliadau safonau'r Gymraeg i'w gweld ar y wefan (gweler adran 1 y codau ymarfer ynghylch statws cyfreithiol y codau).

Cynnwys

Rhan 1	1
1 Cefndir	1
2 Trefniadau cyhoeddi adroddiad blynyddol safonau'r Gymraeg	3
3 Strwythur posib adroddiad blynyddol safonau'r Gymraeg	4
Rhan 2	5
4 Teitl, awdur a dyddiad	5
5 Cyflwyniad	5
6 Crynodeb gweithredol	6
7 Cefndir/cyd-destun yr adroddiad	8
8 Materion sy'n codi'n ystod y cyfnod adrodd	9
9 Casgliadau ac argymhellion / camau gweithredu	18
Rhan 3	19
10 Atodiad 1: safonau perthnasol	19

Rhan 1

1 Cefndir

- 1.1 O dan y drefn safonau, mae'n bwysig i sefydliad hunan reoleiddio oherwydd mai'r sefydliad, nid y Comisiynydd, sydd o dan ddyletswydd statudol i gydymffurfio â'r safonau perthnasol. Mae safonau'r Gymraeg yn cynnwys dyletswyddau penodol er mwyn galluogi'r sefydliad i gyflawni hynny. Er enghraifft:
 - rhoi cyhoeddusrwydd i safonau a'r modd y mae'r sefydliad yn bwriadu cydymffurfio â hwy;
 - cadw cofnodion;
 - cyhoeddi trefniadau goruchwylio, hybu a hwyluso;
 - cyhoeddi a gweithredu gweithdrefn gwyno;
 - llunio adroddiad blynyddol ynglŷn â chydymffurfedd â safonau
 - darparu gwybodaeth i'r Comisiynydd.
- 1.2 Ceir dogfen gyngor arfer da ar wahân sy'n mynd i'r afael â'r ffordd y gall sefydliadau oruchwylio eu cydymffurfiaeth nhw â safonau'r Gymraeg. Mae'r canllaw hwn yn mynd i'r afael yn benodol â'r ddyletswydd i lunio adroddiad blynyddol safonau'r Gymraeg.
- 1.3 Mae adroddiad blynyddol yn darparu gwerthusiad y sefydliad ei hun o'r modd y mae'n hybu a hwyluso cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. O safbwynt ymwneud y Comisiynydd, bydd yn defnyddio'r adroddiadau hyn fel ffynhonnell ychwanegol i'r wybodaeth annibynnol y bydd yn ei chasglu ar gyfer mesur cydymffurfedd sefydliadau gyda'u dyletswyddau statudol.
- 1.4 Mae rheoleiddio effeithiol a deallus yn dod o feddu ar wybodaeth dda am sefydliadau ar yr amser iawn. Bydd y Comisiynydd yn ystyried yn ofalus pob adroddiad blynyddol a gyhoeddir ac yn ystyried sut orau i ymateb. Bydd yn defnyddio'r adroddiadau er mwyn adnabod tueddiadau mewn sectorau neu feysydd penodol ac yn sicrhau yr ymdrinnir â'r materion hynny mewn dull cydlynol drwy ei raglen waith flynyddol. Nid yw'n arferol bellach i'r Comisiynydd ymateb yn ysgrifenedig i bob adroddiad blynyddol a gyhoeddir.
- 1.5 Bwriad y canllaw hwn yw rhoi arweiniad i sefydliadau ar sut i gydymffurfio â'r safonau sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt lunio adroddiad blynyddol safonau'r Gymraeg. Mae'r safonau wedi eu rhestru ar ddiwedd y canllaw hwn. Efallai na fydd pob un o'r safonau wedi eu gosod ar eich sefydliad chi – gallwch wirio'ch hysbysiad cydymffurfio.
- 1.6 Mae'r canllaw'n nodi pa bethau sy'n ddyletswyddau gofynnol, a hefyd y pethau hynny y gallwch eu gwneud er mwyn gwneud eich adroddiad yn fwy defnyddiol ac effeithiol.

Canfyddiadau diweddar y Comisiynydd

- 1.7 Yn Hawlio Cyfleoedd, adroddiad sicrwydd y Comisiynydd ar gyfer 2018-19, adroddwyd ar y gwaith o wirio i ba raddau yr oedd sefydliadau rheoliadau safonau'r Gymraeg rhifau 1, 2, 4 a 5 wedi cyhoeddi'r dogfennau hynny sy'n esbonio sut y maent (neu y byddant) yn cydymffurfio â safonau, gan gynnwys adroddiadau blynyddol safonau'r Gymraeg. Gyda golwg ar bwnc y canllaw hwn:
- 76% o sefydliadau oedd wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol ar sut mae'r safonau'n cael eu gweithredu, gyda 6% pellach wedi anfon adroddiad at y Comisiynydd ond heb gyhoeddi.
- 1.8 Fel y mae'r adroddiad yn nodi, mae'n ofynnol i sefydliadau roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith eu bod wedi cyhoeddi adroddiad, ond dim ond ar gyfer 28% ohonynt y daethpwyd o hyd i dystiolaeth o gyhoeddusrwydd. Roedd:
- 97% wedi adrodd ar nifer y cwynion roeddent wedi eu derbyn;
 - 86% wedi adrodd ar nifer y staff sydd â sgiliau Cymraeg; a
 - 78% wedi adrodd ar nifer y staff oedd wedi mynychu hyfforddiant galwedigaethol penodol (e.e. recriwtio, iechyd a diogelwch) yn Gymraeg – llawer wedi camddeall y gofyniad, gan adrodd ar fynychwyr hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith neu ddysgu Cymraeg.
 - 33% wedi adrodd ar nifer y staff oedd wedi mynychu hyfforddiant galwedigaethol penodol (e.e. recriwtio, iechyd a diogelwch) yn Gymraeg – llawer wedi camddeall y gofyniad, gan adrodd ar fynychwyr hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith neu ddysgu Cymraeg.
- 1.9 Roedd llawer o'r adroddiadau blynyddol yn nodi y byddai'r sefydliad yn cyflenwi gwasanaethau yn unol â'r gofynion ond heb roi unrhyw syniad pa gamau a gymerwyd i sicrhau hynny, na pha gynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn.

2 Trefniadau cyhoeddi adroddiad blynyddol safonau'r Gymraeg

- 2.1 Mae'r safonau'n nodi bod rhaid i sefydliad lunio adroddiad, yn Gymraeg, ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae 'blwyddyn ariannol' yn golygu'r cyfnod o amser rhwng y 1af o Ebrill tan yr 31ain o Fawrth y flwyddyn ganlynol, ond bydd gan rai sefydliadau drefniadau gwahanol, er enghraifft mae blwyddyn ariannol nifer o sefydliadau addysg yn diweddu ar ddiwedd mis Gorffennaf.
- 2.2 Dyma'r dyddiadau adrodd gofynnol ar gyfer pob set o reoliadau:
- Rheoliadau rhif 1: 30 Mehefin yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi;
 - Rheoliadau rhif 2, 4, 5, 6 a 7: 6 mis yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.
- 2.3 Gyda golwg ar roi cyhoeddusrwydd i'r adroddiad, yn ogystal â sicrhau bod copi cyfredol ohono ar gael ar wefan y sefydliad dan sylw, rhaid hefyd sicrhau bod copi cyfredol ohono ar gael ym mhob un o swyddfeydd y sefydliad sy'n agored i'r cyhoedd. Nid yw hyn yn angenrheidiol ar gyfer Rheoliadau rhif 7.
- 2.4 Mae'n bwysig caniatáu digon o amser fel bod yr adroddiad terfynol, wedi ei gymeradwyo, yn cael ei gyhoeddi yn Gymraeg erbyn y dyddiad gofynnol.
- 2.5 Mae dulliau posib o roi cyhoeddusrwydd i'r adroddiad yn cynnwys:
- datganiad i'r wasg / eitem newyddion ar eich gwefan
 - gosod yr adroddiad mewn lle amlwg ar eich gwefan
 - hyrwyddo'r adroddiad ar y cyfryngau cymdeithasol, gyda delweddau neu fideos i gefnogi'r cyhoeddiad¹
 - cynnig erthygl i bapur newydd lleol/cyfrwng newyddion lleol.

¹ Yn 2017, cyhoeddodd Heddlu De Cymru [fideo ar y cyfryngau cymdeithasol](#) i gyd-fynd â chyhoeddi Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg y sefydliad.

3 Strwythur posib adroddiad blynyddol safonau'r Gymraeg

3.1 Dyma dempled strwythur safonol ar gyfer llunio'r adroddiad blynyddol:

1. Teitl a dyddiad
2. Cynnwys
3. Cyflwyniad
4. Crynodeb Gweithredol (uchafswm o 1-2 dudalen) sy'n cynnwys y prif ganfyddiadau
5. Cefndir/cyd-destun yr adroddiad
6. Materion sy'n codi'n ystod y cyfnod adrodd
7. Casgliadau ac argymhellion/camau gweithredu
8. Atodiadau

3.2 Mae gweddill y canllaw hwn yn dilyn y strwythur uchod gan gynnig cynnwys a threfn posib ar gyfer y gwahanol adrannau. Does dim rheidrwydd arnoch i ddilyn y strwythur hwn, ond mae'n rhaid cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol.

Rhan 2

4 Teitl, awdur a dyddiad

- 4.1 Mae'r safonau yn cyfeirio at yr angen i sefydliad lunio 'adroddiad blynyddol ynglŷn â safonau'. O ganlyniad, er eglurder, gellir rhoi teitl fel a ganlyn i'r adroddiad: **Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg [enw'r sefydliad] ar gyfer [y flwyddyn dan sylw]**.
- 4.2 Os yw eich sefydliad o dan ddyletswydd i gydymffurfio ag un neu fwy o'r safonau perthnasol yn ymwneud ag adroddiad blynyddol, gellir cydymffurfio drwy gynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol mewn un adroddiad.

5 Cyflwyniad

- 5.1 Mae gan gyflwyniad nifer o swyddogaethau.
- 5.2 Ei brif swyddogaeth yw gwneud pwrpas yr adroddiad yn glir ac esbonio cwrpas yr adroddiad (weithiau gelwir hyn yn nodi'r Cylch Gorchwyl). Mae hefyd yn paratoi'r darlennydd ar gyfer cynnwys yr adroddiad ac yn rhoi fframwaith ar gyfer adeiladu dealltwriaeth o'r ddogfen.
- 5.3 Efallai y bydd sefydliad am bwysleisio ei ymroddiad i weithredu safonau'r Gymraeg drwy gynnwys rhagair gan bennaeth neu brif weithredwr y sefydliad er mwyn gosod tôn gadarnhaol o'r dechrau.

Astudiaeth achos: Rhagair gan Brif Weithredwr ac Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn sefydlu fframwaith cyfreithiol i osod dyletswydd ar Gyngor Sir Ceredigion, ymhlith sefydliadau cyhoeddus eraill, i gydymffurfio â Safonau yn ymwneud â'r Iaith Gymraeg. Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi ymateb yn bositif i Safonau'r Gymraeg gan ei fod yn gyfle i atgyfnerthu'r gofynion a gwella ansawdd ac argaeledd gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.

Yn ystod 2018/19 bu'r Cyngor yn parhau gyda'i ymdrechion i weithredu gofynion Safonau'r Gymraeg, gan weithio'n agos gyda gwasanaethau i sicrhau bod pawb yn cydymffurfio gyda'r gofynion. Rydym wedi bod yn gweithio'n galed i godi ymwybyddiaeth o ofynion y Safonau, drwy gynnal nifer o sesiynau Ymwybyddiaeth Iaith a'r Safonau; cynnwys gofynion y Gymraeg mewn sesiynau Hyfforddiant Sefydliadol a Hyfforddiant Anwytho Staff newydd. Mae gwaith dwys wedi'i gyflawni gyda'r gwasanaeth Hamdden a'r Gwasanaeth Cofrestru, er mwyn cynyddu ansawdd ac argaeledd gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.

Yn dilyn cyhoeddi Polisi Hybu a Hwyluso'r Defnydd o'r Gymraeg yn Fewnl (Rhagfyr 2017), cefnogi'r gweithlu i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith o ddydd i ddydd, yw un o'r prif feysydd i ganolbwyntio ein gwaith. Y nod yw cynyddu cyfleoedd sydd ar gael i ddysgu'r iaith yn ogystal â chynyddu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Drwy weithio mewn partneriaeth gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol, rydym wedi gallu penodi Tiwtor Cymraeg Gwaith, ac

rydym yn falch i fedru adrodd ar lwyddiant y gwaith sy'n deillio o'r penodiad, er mwyn medru cyflawni ein nod.

Yn ogystal â gweithredu gofynion Safonau'r Gymraeg, prif ffocws y Cyngor yn ystod y cyfnod adrodd hwn fu datblygu a chyhoeddi Strategaeth Iaith Ceredigion â'r cynllun gweithredu dros y pum mlynedd nesaf. Mae'r Strategaeth yn esbonio sut y byddwn ar y cyd gyda sefydliadau partner eraill yn mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnydd o'r Gymraeg yn ehangach o fewn y Sir. Adolygwyd aelodaeth grŵp y bartneriaeth iaith, gan adnabod a dadansoddi'r partneriaid perthnasol. Sefydlwyd Fforwm Dyfodol Dwyieithog Ceredigion, a bu mewnbyn yr aelodau yn allweddol i adnabod y blaenoriaethau strategol ac i lunio'r camau gweithredu perthnasol ar y cyd. Bydd adroddiad cyntaf ar gyflawniadau'r Strategaeth hon yn cael ei gyhoeddi yn ystod misoedd yr haf. Mae'r Strategaeth hon hefyd yn dangos ein hymrwymiad at chwarae ein rhan tuag at yr ymdrechion cenedlaethol i gynyddu nifer o siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi cydymffurfiaeth gyda'r Safonau ynghyd â chyflwyno'r data angenrheidiol yn ystod blwyddyn ariannol 2018-19. Rydym yn cydnabod ein bod wedi gwneud cynnydd ond bod yna welliannau i'w gwneud o hyd, er mwyn gwella darpariaeth cyfrwng Cymraeg ein gwasanaethau.

6 Crynodeb gweithredol

- 6.1 Mae crynodebau gweithredol yn targedu math penodol o ddarllenydd ar gyfer eich dogfen.
- 6.2 Maent fel arfer yn wneuthurwyr penderfyniadau allweddol nad oes ganddynt amser i ystyried manylion yr adroddiad, ond mae angen iddynt wybod y darlun cyffredinol.

Sut i ysgrifennu crynodeb gweithredol llwyddiannus?

- 6.3 Gallwch:
 - ddarllen eich dogfen orffenedig o'r dechrau i'r diwedd;
 - ysgrifennu prif bwrpas y ddogfen ar unwaith mewn paragraff byr os yn bosibl;
 - crynhoi'r prif bwyntiau mewn ychydig eiriau. Peidiwch â chopio talpiau o destun o'r ddogfen;
 - sylwi ar unrhyw gasgliadau ac argymhellion a wnaed;
 - ysgrifennu drafft cyntaf o'ch crynodeb o'ch nodiadau heb gyfeirio at y brif ddogfen;
 - fel ar gyfer unrhyw ddogfen arall, adolygu llif y ddogfen cyn ei phrawfddarllen.

Astudiaeth achos: Crynodeb gweithredol Cyngor Sir Gâr

Mae'r Fforwm Sirol, sy'n parhau i gael ei arwain gan y Cyngor ac yn cynnwys cynrychiolaeth o fudiadau hyrwyddo iaith y sir, yn ogystal â chyrff cyhoeddus sydd â swyddogion iaith, hefyd wedi parhau gyda'i rôl o ddatblygu rhaglen o hybu'r Gymraeg yn y sir ac wedi cyfrannu'n helaeth i gydgyllunio ar gyfer gweithredu Cynllun

Gweithredu Strategaeth Hybu Sir Gâr, yn unol â'r Safon Hybu.

Gwnaed llawer iawn o waith cyfathrebu mewnol i'r Cyngor eto yn ystod 2018-19 gan barhau i drosglwyddo negeseuon i staff wrth fynychu sioeau teithiol ar draws y sir mewn gwahanol adeiladau er mwyn cyfarfod wyneb yn wyneb â staff a thrafod unrhyw faterion oedd yn codi. Manteisiwyd ar y cyfle i hyrwyddo'r clipiau sain, rhestrau geirfa, y fideos a thempledi newydd ynghyd â hyrwyddo'r amrywiaeth o gyrsiau sydd ar gael i ddysgu neu wella sgiliau Cymraeg. Bu negeseuon cyson hefyd ym mhrif gylchlythyron yr Awdurdod ac mewn rhai cylchlythrau adrannol.

Gwelwyd ffrwyth blwyddyn o waith yr Ymgynghorydd Dysgu a Datblygu o ran yr Iaith Gymraeg wrth i statws ac ymwybyddiaeth o ddarpariaeth y Ganolfan Genedlaethol gynyddu'n sylweddol. Yn ystod y flwyddyn bu cyfle i gydweithio gyda'r Ganolfan ar ystod o gyfleoedd i staff, gan gynnwys cyfleoedd preswyl er mwyn gloywi iaith. Mae'r adborth o'r cyfleoedd hynny wedi bod yn bositif iawn, gyda'r staff yn nodi newid defnydd iaith yn y gweithle mewn elfennau megis cynnal cyfarfodydd gyda chydweithwyr, cymryd cofnodion a chynnal asesiadau.

Cynhaliwyd hyfforddiant i fentoriaid ar draws y cyngor er mwyn cefnogi dysgwyr ac mae'r drefn o gytuno a gosod Cytundebau Dysgu ar gyfer swyddogion newydd wedi ei sefydlu. Datblygir Cytundebau Dysgu mewn partneriaeth â rheolwyr llinell, Dysgu a Datblygu ac Adnoddau Dynol ar gyfer aelodau newydd o staff nad ydynt yn cwrdd â lefel ieithyddol swydd pan benodir hwy. Mae'r modiwl ar-lein 'Croeso Cymraeg Gwaith' wedi bod yn allweddol i ni fel cyngor wrth gefnogi staff sydd ar ddechrau'r daith o ddysgu Cymraeg a hyd yn hyn, mae 328 o staff wedi cofrestru i ddilyn y modiwl. Rydym yn cefnogi'r staff i gwblhau'r modiwl deg awr ar-lein ac yn awyddus i weld y niferoedd sy'n cwblhau yn cynyddu yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Mae pawb sy'n cwblhau yn derbyn pecyn llongyfarch oddi wrth y Ganolfan ac mae'r cofnod hyfforddi Adnoddau Dynol yn cael ei ddiweddarau.

Gwnaed gwaith datblygu yn ystod 2018-19 gydag Arweinwyr Iaith y Cyngor. Bellach, mae tua 45 o Arweinwyr Iaith yn gweithio i sicrhau fod ein gwasanaethau'n cael eu cynnal yn Gymraeg a bod y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo o fewn y gweithle, ac mae trefniadau ar y gweill i hyfforddi ac ymsefydlu mwy o Arweinwyr Iaith o adrannau amrywiol. Mae cryn botensial i ddatblygu gwaith y grwpiau hyn, ac i gydlynu cydweithio rhyngddynt yn ogystal. Bydd angen ystyried sut i adeiladu ar y gwaith drwy gynnig ôl-ofal addas o'r adran bolisi yn ystod y flwyddyn nesaf.

Yn yr un modd, mae cyfarfodydd rheolaidd wedi parhau gyda chydweithwyr Adnoddau Dynol er mwyn sicrhau cynnydd yn unol â'r Safonau ac er mwyn derbyn adborth rheolaidd o ran gweithredu'r Strategaeth Sgiliau Iaith. Mae'r isadran Rheoli Pobl yn monitro'r prosesau recriwtio ac yn cefnogi rheolwyr o ran cynnal asesiadau iaith swyddi ac maent hefyd yn gyfrifol am y ddarpariaeth hyfforddiant a chefnogaeth cyflogaeth i holl staff y cyngor. Byddwn yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd yn ystod 2019-20.

7 Cefndir/cyd-destun yr adroddiad

- 7.1 Yn yr adran hon, byddai'n ddefnyddiol i'r sefydliad ddarparu eglurhad cryno o sail yr adroddiad, sef Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a safonau'r Gymraeg. Yn benodol, gallai'r sefydliad atgoffa darllenwyr o'r gofynion sydd wedi eu gosod arno drwy gynnwys dolen at yr hysbysiad cydymffurfio neu at y ddogfen sydd ar ei wefan yn cofnodi'r safonau sydd wedi eu gosod arno.
- 7.2 Gan fod llunio adroddiad blynyddol yn rhan o waith sefydliad o hunanreoleiddio, gallech hefyd gynnwys dolen at y ddogfen / dogfennau sydd gennych ar eich gwefan yn nodi trefniadau'r sefydliad ar gyfer:
- cydymffurfio â'r safonau
 - goruchwyllo cydymffurfiaeth â'r safonau
 - hybu a hwyluso defnydd o wasanaethau Cymraeg.
- 7.3 Bydd hyn yn golygu na fydd angen ailadrodd cynnwys y dogfennau hynny yn yr adroddiad blynyddol.

Atebolrwydd

- 7.4 Gan fod llunio adroddiad blynyddol yn ffordd gyhoeddus o arddangos atebolrwydd, gallech roi gwybod i ddarllenwyr pwy sy'n gyfrifol am y Gymraeg o fewn y sefydliad. Er enghraifft:
- pwy sy'n gyfrifol am y Gymraeg ar lefel wleidyddol / bwrdd;
 - pwy sy'n gyfrifol am y Gymraeg ar lefel arweiniad strategol;
 - pwy sy'n gyfrifol am weithredu'r safonau o ddydd i ddydd, ac y dylid cysylltu â hwy i drafod yr adroddiad.
- 7.5 Gallech nodi beth yw'r trefniadau ar gyfer cymeradwyo'r adroddiad, e.e. os yw'n cael ei gymeradwyo gan dîm rheoli neu gabinet, neu beth yw'r trefniadau craffu mewnol / allanol ar gyfer yr adroddiad.
- 7.6 Gallech gynnwys dolen at eich gweithdrefn gwyno ar eich gwefan, sy'n nodi beth yw'r drefn ar gyfer delio â chwynion ynghylch cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg, a hyfforddi staff i ddelio â'r cwynion hynny.

8 Materion sy'n codi'n ystod y cyfnod adrodd

Sut y bu i'r sefydliad gydymffurfio â'r safonau

- 8.1 Mewn unrhyw adroddiad blynyddol, mae'n bwysig bod sefydliad yn dwyn sylw at faterion sylweddol bwysig a gododd yn ystod y flwyddyn adrodd. Mae cynnwys adran o'r fath mewn adroddiad yn rhoi sicrwydd i ddefnyddwyr ynglŷn â'r modd y mae'r sefydliad yn mynd ati i gydymffurfio gyda'r safonau sydd wedi eu gosod arno. Mae hefyd yn ffordd effeithiol i'r sefydliad hunanreoleiddio, rhoi darlun clir o'r sefyllfa bresennol o ran y ddarpariaeth, yn ogystal â'r modd y bydd yn mynd ati i unioni unrhyw ddiffygion.
- 8.2 Ar y cyfan, gall yr adran hon ganolbwyntio ar yr hyn sy'n newydd neu wedi ei ddatblygu yn ystod y flwyddyn yr adroddir arni.

Trefniadau cyffredinol

- 8.3 Fel man cychwyn, gallai'r sefydliad gynnwys gwybodaeth am yr hyn y mae'n ei wneud yn gyffredinol i **hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg**. Er enghraifft:
- hyfforddiant i staff
 - trefniadau goruchwyllo / gwirio
 - trefniadau adborth defnyddwyr / cwyno
 - digwyddiadau nodedig perthnasol yn ystod y flwyddyn
- 8.4 Wedyn, gall y sefydliad fynd ati i adrodd fesul dosbarth o safonau. Mae'r safonau yn golygu bod rhaid i sefydliad egluro'r modd y bu iddo gydymffurfio â phob un o'r safonau cyflenwi gwasanaethau, y safonau llunio polisi a'r safonau gweithredu yr oedd o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.
- 8.5 Er nad oes arweiniad pellach yn y safonau eu hunain o ran lefel a manylder y math o wybodaeth sydd angen ei darparu, byddai'n fuddiol i'r sefydliad gynnwys tystiolaeth ddigonol sy'n ei alluogi i egluro sut y bu iddo gydymffurfio gyda holl safonau'r tri dosbarth gofynnol. Un opsiwn fyddai darparu gwybodaeth fesul gweithgaredd, er enghraifft:

Grŵp o safonau	Camau a gymerwyd yn y flwyddyn dan sylw	Camau i'w cymryd yn y flwyddyn i ddod
Safonau 8-17 ynghylch galwadau ffôn i sefydliad ac oddi wrth gorff	Cynyddwyd nifer y staff dwyieithog yn y ganolfan gyswllt o 21% - 23%	Cynlluniau hyfforddiant mewn lle i gynyddu'r ystod o ymholiadau y gall staff dwyieithog eu datrys ar y pwynt cyswllt cyntaf

Safonau cyflenwi gwasanaethau

- 8.6 Mae Mesur y Gymraeg yn nodi mai ‘ystyr “safon cyflenwi gwasanaethau” yw safon sy’n ymwneud â gweithgaredd cyflenwi gwasanaethau, y bwriedir iddi hybu a hwyluso defnyddio’r Gymraeg, neu weithio tuag at sicrhau nad yw’r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg, pan gyflawnir y gweithgaredd hwnnw.’ Eglura mai ‘ystyr “gweithgaredd cyflenwi gwasanaethau” yw (a) cyflenwi gwasanaeth gan berson i berson arall, neu (b) delio gan berson ag unrhyw berson arall mewn cysylltiad â chyflenwi gwasanaethau, naill ai i’r person hwnnw, neu i drydydd person.’
- 8.7 Isod, cynigir rhai enghreifftiau o’r math o faterion y gallai sefydliad benderfynu eu cynnwys wrth adrodd ar weithgareddau penodol, er mwyn darparu sicrwydd pellach fod trefniadau a gweithdrefnau wedi eu sefydlu a’u gwreiddio i sicrhau cydymffurfiaeth.
- 8.8 **Trefniadau staffio** – a ydy’r sefydliad wedi gwneud unrhyw drefniadau neu addasiadau penodol o ran staffio er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda gofynion y safonau cyflenwi gwasanaethau?
- 8.9 **Systemau technolegol** – a ydy’r sefydliad wedi penderfynu caffael (neu ddatblygu) unrhyw systemau newydd yn ystod y flwyddyn er mwyn hwyluso darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg?
- 8.10 Gallai’r sefydliad benderfynu darparu hunan asesiad o ansawdd y gwasanaethau Cymraeg sy’n cael eu darparu gan y sefydliad yn unol â’r safonau cyflenwi gwasanaethau. Gallai hyn hefyd gynnwys gwasanaethau sy’n cael eu darparu gan drydydd parti ar ran y sefydliad.
- 8.11 Gallai’r asesiad fod yn seiliedig ar ganfyddiadau gwaith monitro profiad unigolion sy’n dod i gyswllt â’r sefydliad neu’n defnyddio’r gwasanaethau sy’n cael eu darparu, gan gynnwys gwybodaeth ynghylch y cynnig rhagweithiol i ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg.

Safonau llunio polisi

- 8.12 Mae’r safonau llunio polisi yn ymwneud â’r ffordd y mae sefydliad yn ystyried effeithiau ei benderfyniadau polisi ar y Gymraeg.
- 8.13 Mae gofynion y safonau llunio polisi yn golygu bod rhaid i sefydliad gadw cofnod o’r camau y mae wedi eu cymryd i gydymffurfio â’r safonau llunio polisi.
- 8.14 At ddibenion yr adroddiad blynyddol, gallai sefydliad benderfynu cynnwys trosolwg cyffredinol o’r camau y mae wedi eu cymryd i gydymffurfio â’r safonau llunio polisi.
- 8.15 Wedyn, gan ddefnyddio gwybodaeth a gasglwyd ganddo yn unol â gofynion y safon cadw cofnodion berthnasol, gallai’r sefydliad gynnwys manylion am y materion canlynol:

Yn sgil ystyried effeithiau penderfyniadau polisi a wneir gan sefydliad ar y Gymraeg, nifer a chanran y rhai a ddiwygiwyd yng nghyd-destun:

- polisiau newydd a pholisiau a adolygwyd neu a addaswyd;

- dogfennau ymgynghori ar benderfyniadau polisi;
- gwaith ymchwil a wnaed neu a gomisiynwyd i gynorthwyo sefydliad i wneud penderfyniadau polisi;
- penderfyniadau ynghylch dyfarnu grantiau.

8.16 Gellir cynnwys gwybodaeth ar sut mae trefniadau'r sefydliad yn:

- gosod sail ar gyfer gwneud penderfyniadau sy'n rhoi ystyriaeth briodol a digonol i'r ffactorau sy'n effeithio ar hyfywedd y Gymraeg;
- sicrhau cysondeb yr asesiadau;
- sicrhau gwrthrychedd wrth ddod i gasgliadau;
- adnabod mesurau lliniaru pan fo asesiad yn dangos bod effaith andwyol ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;
- adnabod cyfleoedd i sicrhau effeithiau positif neu gyfleoedd i hyrwyddo cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

8.17 Gallai'r sefydliad ddarparu hunan asesiad y sefydliad am ansawdd yr ystyriaeth a roddwyd ganddo i effaith penderfyniadau polisi ar y Gymraeg.

8.18 Gellir darparu datganiad yn nodi pryd y mabwysiadwyd polisi dyfarnu grantiau gan y sefydliad a sut mae'r polisi yn ei gynorthwyo i gydymffurfio â'r safonau y mae dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.

8.19 Gellir cynnwys hunan asesiad y sefydliad am ansawdd yr ystyriaeth a roddwyd ganddo i effaith penderfyniadau ar y Gymraeg yn unol â'i bolisi dyfarnu grantiau.

8.20 Ceir dogfen gyngor benodol ar wahân sy'n mynd i'r afael â gofynion y safonau llunio polisi.

Safonau gweithredu

8.21 Yn gyffredinol, mae'r safonau gweithredu'n ymwneud â'r ffordd y mae sefydliad yn mynd ati i ddatblygu ei ddefnydd ei hun o'r Gymraeg, a'r modd hefyd y mae'n galluogi a hwyluso defnydd ei staff o'r Gymraeg.

8.22 Ymhlith gofynion eraill sydd wedi eu gosod arno, gallai fod yn ofynnol i'r sefydliad ddatblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol. At ddibenion yr adroddiad blynyddol, gellir cynnwys datganiad yn nodi pryd mabwysiadwyd y polisi gan y sefydliad ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, gyda'r bwriad o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg.

8.23 Gallai'r sefydliad gynnwys trosolwg o'r polisi yn yr adroddiad, gan fanylu ar y prif amcanion a gweithgareddau. Ar ben hynny, gallai benderfynu cynnwys hunan asesiad o'r cynnydd a wnaed i weithredu'r polisi .

8.24 Yn yr hunanasesiad, gellir darparu gwybodaeth, er enghraifft, am nifer y cyflogeion sy'n dymuno derbyn gwybodaeth am eu cyflogaeth drwy gyfrwng y

Gymraeg. Gellir darparu gwybodaeth ynghylch o unrhyw bolisiau sydd wedi'u cyhoeddi sy'n ymwneud ag unrhyw agwedd o gyflogaeth cyflogaeth.

Data penodol y mae'n ofynnol i sefydliad ei gynnwys yn yr adroddiad

Cwynion

Dosbarth o safonau	Cwynion a dderbyniwyd yn uniongyrchol
Safonau cyflenwi gwasanaethau	
Safonau llunio polisi	
Safonau gweithredu	

8.25 Dylid nodi bod angen adrodd ar y nifer o gwynion y mae'r sefydliad wedi'i dderbyn yn uniongyrchol yn hytrach na'r rhai y mae'r Comisiynydd yn eu derbyn.

8.26 Gellir disgrifio'r hyn a ddigwyddodd yn sgil cwynion – h.y. sut mae cwynion wedi arwain at adfer cydymffurfiaeth?

Cwyn	Manylion	Camau a gymerwyd

8.27 Gellir cynnwys datganiad yn nodi lle a phryd y cyhoeddwyd y weithdrefn gwyno y mae'r sefydliad wedi ei sefydlu sy'n esbonio'r modd y mae'n:

- o bwriadu cydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau, llunio polisi a gweithredu y mae dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy;
- o darparu hyfforddiant i'w staff ynglŷn â delio â'r cwynion hynny.

8.28 Gellir cynnwys hunan asesiad y sefydliad o effeithiolrwydd y weithdrefn gwyno sydd wedi ei sefydlu a'r modd y cafodd ei gweithredu.

Sgiliau Cymraeg cyflogeion²

- 8.29 Mae Cod Ymarfer i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 y Comisiynydd yn nodi, 'fel arfer, mae lefelau sgiliau Cymraeg yn cael eu cofnodi yn unol â fframwaith cydnabyddedig. Mae'r Comisiynydd yn dymuno gweld rhagor o gysondeb yn y modd y cofnodir sgiliau Cymraeg cyflogeion, er mwyn hwyluso casglu data am y gweithlu dwyieithog. Er mwyn sicrhau cysondeb cenedlaethol yn y modd y mae sefydliadau yn asesu sgiliau iaith Cymraeg cyflogeion, gall sefydliadau ddewis gwneud yr asesiad ar sail Fframwaith Cyfeirio Ewrop ar gyfer leithoedd (CEFR) i'r dyfodol.'
- 8.30 Cyfansymiau cywir sy'n gyfredol ar ddiwedd y flwyddyn dan sylw (fesul lefel CEFR).

Adran	Nifer staff â sgiliau Cymraeg	Nifer staff heb sgiliau Cymraeg	Canran staff â sgiliau Cymraeg
Yr holl sefydliad	Cyfanswm: # A1: # A2: # B1: # B2: # C1: # C2: #	#	Cyfanswm: # A1: # A2: # B1: # B2: # C1: # C2: #
Adran Addysg	Cyfanswm: # A1: # A2: # B1: # B2: # C1: # C2: #	#	Cyfanswm: # A1: # A2: # B1: # B2: # C1: # C2: #
Adran Adnoddau Dynol	Cyfanswm: # A1: # A2: # B1: #	#	Cyfanswm: # A1: # A2: # B1: #

² Mae [Cod Ymarfer i Reoliadau Safonau'r Gymraeg \(Rhif 1\) 2015](#) y Comisiynydd yn manylu ar y dull o gasglu gwybodaeth am sgiliau. Gwybodaeth am sut i adrodd yn unig sydd yn yr adran hon.

	B2: #		B2: #
	C1: #		C1: #
	C2: #		C2: #

- 8.31 Yn ogystal ag adrodd fesul adran, gallai sefydliad benderfynu manylu ar sgiliau fesul tîm /gradd /lleoliad.
- 8.32 Gall sefydliad hefyd roi barn ar gapasiti sgiliau Cymraeg ei weithlu sgiliau staff er mwyn cydymffurfio.
- 8.33 Gellir cynnwys datganiad am y camau a gymerwyd gan y sefydliad i gynllunio gweithlu dwyieithog er mwyn sicrhau cydymffurfedd â'r safonau y mae dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. Gellir cynnwys gwybodaeth am gamau a gymerwyd i:
- ddadansoddi a mesur anghenion sgiliau Cymraeg y sefydliad;
 - ddadansoddi sgiliau Cymraeg cyflogeion presennol;
 - cymharu capasiti sgiliau Cymraeg cyflogeion presennol gydag anghenion y corff;
 - gosod nod a thargedau penodol ar gyfer gwneud cynnydd tuag at ddiwallu anghenion sgiliau Cymraeg y corff;
 - disgrifio'r camau mae'r sefydliad am eu cymryd ar gyfer gwneud cynnydd tuag at y nod.

Hyfforddiant

- 8.34 Nid yw'r safonau yn gofyn i sefydliad adrodd ar nifer y staff sydd wedi derbyn gwersi Cymraeg (er bod modd sôn am hyn hefyd).
- 8.35 Mae rhai safonau'n gofyn am wybodaeth benodol am gyrsiau a gynigwyd gennych yn Gymraeg o dan y categorïau isod:
- recriwtio a chyfweld;
 - rheoli perfformiad;
 - gweithdrefnau cwyno a disgyblu;
 - ymsefydlu;
 - delio â'r cyhoedd; ac
 - iechyd a diogelwch.
- 8.36 Os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o'r cyrsiau uchod, rhaid darparu canran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd unrhyw gwrs ac a fynychodd y fersiwn Gymraeg. Gallai adroddiad blynyddol ddarparu gwybodaeth ynghylch hyfforddiant fel a ganlyn:

Math o hyfforddiant	Nifer a fynychodd fersiwn Cymraeg	Nifer a fynychodd fersiwn Saesneg	Canran a fynychodd fersiwn Cymraeg
Recriwtio a chyfweld	Cyfanswm: # Cwrs 1: # Cwrs 2: # Cwrs 3: #	Cyfanswm: # Cwrs 1: # Cwrs 2: # Cwrs 3: #	Cyfanswm: # Cwrs 1: # Cwrs 2: # Cwrs 3: #
Rheoli perfformiad	Cyfanswm: # Cwrs 1: # Cwrs 2: # Cwrs 3: #	Cyfanswm: # Cwrs 1: # Cwrs 2: # Cwrs 3: #	Cyfanswm: # Cwrs 1: # Cwrs 2: # Cwrs 3: #
Gweithdrefnau cwyno a disgyblu	Cyfanswm: # Cwrs 1: # Cwrs 2: # Cwrs 3: #	Cyfanswm: # Cwrs 1: # Cwrs 2: # Cwrs 3: #	Cyfanswm: # Cwrs 1: # Cwrs 2: # Cwrs 3: #
Ymsefydlu	Cyfanswm: # Cwrs 1: # Cwrs 2: # Cwrs 3: #	Cyfanswm: # Cwrs 1: # Cwrs 2: # Cwrs 3: #	Cyfanswm: # Cwrs 1: # Cwrs 2: # Cwrs 3: #
Delio â'r cyhoedd	Cyfanswm: # Cwrs 1: # Cwrs 2: # Cwrs 3: #	Cyfanswm: # Cwrs 1: # Cwrs 2: # Cwrs 3: #	Cyfanswm: # Cwrs 1: # Cwrs 2: # Cwrs 3: #
Iechyd a diogelwch	Cyfanswm: # Cwrs 1: # Cwrs 2: # Cwrs 3: #	Cyfanswm: # Cwrs 1: # Cwrs 2: # Cwrs 3: #	Cyfanswm: # Cwrs 1: # Cwrs 2: # Cwrs 3: #

Swyddi gwag a newydd

8.37 Wrth gyfeirio at swyddi gwag a newydd a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn, rhaid cyfeirio at y categorïau hanfodol, dymunol, angen dysgu, neu ddim yn angenrheidiol. Nodwch nad yw adrodd mewn dull arall yn cydymffurfio gyda gofynion y safonau.

Categori	Nifer swyddi a gategoriwyd	Canran swyddi a gategoriwyd
Hanfodol		
Dymunol		
Angen dysgu Cymraeg		
Dim angen sgiliau Cymraeg		

9 Casgliadau ac argymhellion / camau gweithredu

- 9.1 Yn gyffredinol wrth lunio adroddiad, caiff argymhellion eu cynnwys gyda chasgliadau'r adroddiad, er eu bod yn cyflawni gwahanol ddibenion. Yng nghyd-destun adroddiad blynyddol safonau'r Gymraeg, tra bo casgliad yn cynnig cyfle i chi grynhoi neu adolygu priif bwyntiau'r adroddiad, mae argymhellion yn awgrymu camau i'w cymryd yn dilyn gwerthuso gwaith a pherfformiad y flwyddyn.
- 9.2 Gan ystyried fod adroddiad blynyddol safonau'r Gymraeg yn debygol o adnabod rhai meysydd/grwpiau o safonau sy'n gofyn am sylw manylach yn ystod y cyfnod adrodd nesaf, mae'n synhwyrol eich bod yn manteisio ar yr adran hon i gynnig dulliau gweithredu er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion.

Ymchwiliadau gorfodi a chamau gorfodi

- 9.3 Ar ben hynny, mae'n bosib y bydd sefydliad wedi bod yn destun i ymchwiliad(au) gorfodi yn ystod y flwyddyn dan sylw. O ganlyniad, gallai'r adran hon gynnwys gwybodaeth ynghylch y camau gorfodi hynny sydd wedi eu gosod ar y sefydliad ac eglurhad o'r modd mae/y bydd yn mynd ati i gyflawni'n unol â'r camau hynny.

Rhan 3

10 Atodiad 1: safonau perthnasol

Rhif y safon (rheoliadau)	Geiriad y safon
158 (1); 152 (2); 152 (4); 155 (5); 166 (6);	<p>(1) Rhaid ichi lunio adroddiad (“adroddiad blynyddol”), yn Gymraeg mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy’n delio â’r modd y bu ichi gydymffurfio â’r safonau cyflenwi gwasanaethau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.</p> <p>(2) Rhaid i’r adroddiad blynyddol gynnwys nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn honno a oedd yn ymwneud â’ch cydymffurfedd â’r safonau cyflenwi gwasanaethau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.</p> <p>(3) Rhaid ichi gyhoeddi’r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na (30 Mehefin Rheoliadau Rhif 1) (6 mis Rheoliadau 2,4,5 a 6) yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae’r adroddiad yn ymwneud â hi.</p> <p>(4) Rhaid ichi roi cyhoeddusrwydd i’r ffaith eich bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol.</p> <p>(5) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o’ch adroddiad blynyddol ar gael –</p> <ul style="list-style-type: none">(a) ar eich gwefan, a(b) ym mhob un o’ch swyddfeydd sy’n agored i’r cyhoedd
120 (7)	<p>(1) Rhaid ichi lunio adroddiad (“adroddiad blynyddol”), yn Gymraeg mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy’n delio â’r modd y bu ichi gydymffurfio â’r safonau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.</p> <p>(2) Rhaid i’r adroddiad blynyddol gynnwys yr wybodaeth a ganlyn (pan fo’n berthnasol, i’r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â’r safonau y cyfeirir atynt) –</p> <ul style="list-style-type: none">(a) nifer y cwynion a gawsoch yn y flwyddyn dan sylw a oedd yn ymwneud â’ch cydymffurfedd â’r safonau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 115);(b) nifer y cyflogeion sy’n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 116);(c) nifer (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 117) y swyddi newydd gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy’n

	<p>gofyn –</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol; (ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodi i'r swydd; (iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu (iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.
<p>164 (1); 158 (2); 158 (4); 161 (5); 172 (6);</p>	<ul style="list-style-type: none"> (1) Rhaid ichi lunio adroddiad, ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau llunio polisi yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno. (2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau llunio polisi yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. (3) Rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na(30 Mehefin Rheoliadau Rhif 1) (6 mis Rheoliadau 2,4,5 a 6) yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi. (4) Rhaid ichi roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith eich bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol. (5) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael – <ul style="list-style-type: none"> (a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.
<p>170 (1); 164 (2); 164 (4); 167 (5); 178 (6); ### (7)</p>	<ul style="list-style-type: none"> (1) Rhaid ichi lunio adroddiad ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau gweithredu yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno. (2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys yr wybodaeth a ganlyn (pan fo'n berthnasol, i'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau y cyfeirir atynt) – <ul style="list-style-type: none"> (a) nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn dan sylw (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 151[1]; 145[2]; 144[4]; 147[5]; 158[6]); (b) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a

	<p>gynigwyd gennych yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152[1]; 146[2]; 145[4]; 148[5]; 159[6]);</p> <p>(c) os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn ystod y flwyddyn, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg, (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152[1]; 146[2]; 145[4]; 148[5]; 159[6]);</p> <p>(ch) nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn –</p> <p>(i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol</p> <p>(ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd,</p> <p>(iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol, neu</p> <p>(iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol, (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 154[1]; 148[2]; 147[4]; 150[5]; 161[6]);</p> <p>(d) nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.</p> <p>(3) Rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na (30 Mehefin Rheoliadau Rhif 1) (6 mis Rheoliadau 2,4,5 a 6) yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.</p> <p>(4) Rhaid ichi roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith eich bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol.</p> <p>(5) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael –</p> <p>(a) ar eich gwefan, a</p> <p>(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.</p>
--	---



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd
CF10 1AT

0345 6033 221

post@comisiynyddygyymraeg.cymru

[@ComyGymraeg](https://twitter.com/ComyGymraeg)

comisiynyddygyymraeg.cymru